**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 9 Mawrth 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: P O'Connor (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | D W Helliwell |
| P R Hood-Williams | P K Jones | J W Jones |
| M B Lewis | S Pritchard | L V Walton |
| T M White | | |

**Aelod Lleyg**
Julie Davies

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

| | |
|---|---|
| Jason Garcia | Wales Audit Office |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr T J Hennegan, E T Kirchner ac A H Stevens

---

## 44 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 45 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio fel cofnod cywir.

Nodwyd nad oedd y Cynghorydd P K Jones yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf gan ei fod yn cael brechiad COVID-19.

## 46 Canolfan Wasanaeth - Adroddiad Dilynol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). (Sian Williams / Emma Johnson)

Cyflwynodd Sian Williams, Rheolwr y Ganolfan Gwasanaeth ac Emma Johnson, Rheolwr Desg Gymorth y Ganolfan Gwasanaethau a’r GDG/GCC adroddiad diweddaru ar y Ganolfan Wasanaeth, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Amlinellwyd bod y cynllun gweithredu, a ddrafftiwyd yn dilyn barn archwilio gymedrol, wedi nodi 12 argymhelliad, rhoddwyd 10 ohonynt ar waith yn llawn, rhoddwyd 1 ar waith yn rhannol ac ni roddwyd 1 ar waith.

Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol, cynnydd hyd yma, cynnydd/newidiadau ychwanegol a'r heriau parhaus sy'n wynebu'r maes gwasanaeth. Tynnwyd sylw at y gwelliant a wnaed ers mis Hydref 2020, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau misol i Adnoddau Dynol ac ysgolion, yn ogystal â chyflwyno'r Gofrestr Asesu Risg i gryfhau'r broses gydymffurfio, a oedd wedi gweld gwelliant o 57% mewn datganiadau.

Cydnabu'r Pwyllgor y cynnydd a wnaed a thrafododd y canlynol: -

- Mynd i'r afael â'r 43% sy'n weddill mewn perthynas â datganiadau, gan gydnabod na chafwyd unrhyw wiriadau ar ddatganiadau o'r blaen.

Dywedodd y Prif Archwilydd, Simon Cockings, y byddai'r Archwiliad Mewnol yn ailedrych ar y Maes Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol newydd.

Cydnabu'r Cadeirydd y gwaith a wnaed eisoes a diolchodd i'r swyddogion am eu hymdrechion. Ychwanegodd mai'r nod oedd dim goddefgarwch yn y maes hwn.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Atgoffa gweithwyr a rheolwyr ymhellach o'u cyfrifoldebau a'u rôl yn y broses GDG, a dylid eu hatgyfnerthu drwy'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn sicrhau cysondeb a chadernid y broses;
2) Mae Gweithwyr a Rheolwyr yn parhau i adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol bob chwarter fel diweddariad pellach ar y sefyllfa ar draws yr Awdurdod.

## 47 Adroddiad Methodoleg Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2021/22. (Simon Cockings)

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr, Simon Cockings, yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor Archwilio am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol cyn adrodd am Gynllun Blynyddol 2021/22 i'r pwyllgor i'w gymeradwyo ar 20 Ebrill 2021.

Ychwanegwyd bod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn darparu fframwaith er mwyn cyflwyno gwasanaeth archwilio mewnol proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol sy'n orfodol i bob darparwr archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU. Un o ofynion y PSIAS yw bod rhaid llunio cynllun Archwilio Mewnol blynyddol yn seiliedig ar risgiau i bennu blaenoriaethau Archwiliad Mewnol,

ac i sicrhau cysondeb â nodau'r cyngor. Rhaid i'r cynllun gynnwys gwybodaeth archwilio ddigonol ar draws y cyngor cyfan er mwyn i'r Prif Archwiliwr allu rhoi barn flynyddol i'r cyngor trwy'r Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r amgylchedd rheoli sy'n cynnwys llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol.

Rhoddwyd amlinelliad o fanylion Methodoleg y Cynllun Archwilio Mewnol a rhan o ofynion y PSIAS o ran cynllunio archwilio mewnol yn Atodiad 1, darparwyd manylion y Broses Cynllunio Archwilio Mewnol Blynyddol yn atodiad 2, y Cynllun Archwilio wedi'i Fapio yn erbyn Blaenoriaethau Corfforaethol yn Atodiad 3 a Map Sicrwydd Dinas a Sir Abertawe yn Atodiad 4.

Ychwanegwyd bod yr Ymarfer Ymgynghori ar gyfer Cynllun Archwilio 2021/22 wedi dechrau ym mis Hydref 2020 a'i fod wedi gweld nifer o archwiliadau newydd yn cael eu hychwanegu at y cynllun archwilio. Er bod Cynllun Archwilio 2021/22 yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, rhagwelwyd y byddai'r archwiliadau arfaethedig, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn cael eu grwpio yn y categorïau cyffredinol canlynol: Archwiliadau llywodraethu a rheoli'r cyngor; archwiliadau sylfaenol; ac archwiliadau sy'n benodol i'r gwasanaeth.

Ystyriwyd bod y broses asesu risg a'r rhaglen dreigl, yr ymarfer ymgynghori a'r adolygiad o'r cofrestrau risg yn pennu'r archwiliadau sy'n ofynnol yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2021/22 y bu'n rhaid eu paru wedyn â'r adnoddau archwilio sydd ar gael. Yr adnoddau archwilio a oedd ar gael yn 2021/22 oedd 9.1 cyfwerth ag amser llawn, ac eithrio'r Prif Archwilydd, a oedd heb newid ers 2020/21.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn anodd gweld a oedd yr archwiliadau unigol yn ymdrin â phob maes risg, gan nad oedd amcanion pob archwiliad ar gael yn y cynllun ac na fyddai sicrwydd archwilio yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor nes bod yr holl waith wedi'i gwblhau.

**Penderfynwyd** nodi'r fethodoleg ar gyfer paratoi Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2021/22.

## 48 Cynllun Blynyddol Archwiliad Mewnol Drafft 2021/22. (Simon Cockings)

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr y Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2021/22 i'w ystyried, cyn cyflwyno'r cynllun terfynol i'r pwyllgor ym mis Ebrill 2021 i'w gymeradwyo.

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2021/22 (Crynodeb) ac Atodiad 2 yn darparu'r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2021/22.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Yr her o gwblhau'r archwiliad o Gyflawni'n Well Gyda'n Gilydd – Adferiad mewn 10 niwrnod a'r cynllun wrth gefn a oedd wedi'i gynnwys yn y cynllun blynyddol, pe bai'n cymryd mwy o amser na'r amser a neilltuwyd;

- Sut yr oedd nifer y diwrnodau a neilltuwyd yn arwydd o'r amser tebygol y byddai'r archwiliad yn ei gymryd ac roedd cadarnhad yn destun trafodaethau pellach gyda swyddogion;
- Yr adolygiad o Reoli Risg, o dan y Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata;
- P'un a oedd cynnwys Cyfrifon Derbyniadwy fel archwiliad sylfaenol risg uchel o ganlyniad i COVID-19, nifer digonol y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau'r archwiliad, y gwaith a wnaed eisoes gan yr Archwilio Mewnol a sut roedd Cyfrifon Derbyniadwy yn archwiliad blynyddol.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Prif Archwilydd wedi cadarnhau bod asesiad risg wedi'i gynnal ar gyfer y Cynllun drafft gan ddefnyddio ei wybodaeth archwilio gronnol a'i werthusiad fel y  gan fod y fframwaith sicrwydd a'r gofrestr risg yn dal i gael eu datblygu. Darparwyd sicrwydd drwy adroddiad Methodoleg y Cynllun Archwilio, a gynhaliwyd i lywio'r cynllun archwilio mewnol.  Ychwanegodd fod dyfnder ac ehangder y cynllun yn heriol iawn i'r Tîm Archwilio Mewnol a gofynnodd i'r Prif Archwilydd sicrhau bod yr archwiliad o risgiau uchel yn ddigon trylwyr, hyd yn oed ar draul maint y cynllun cyffredinol.

Dywedodd y Prif Archwilydd mai blaenoriaeth Archwilio Mewnol oedd Lefelau 1 a 2, hyd yn oed pe bai'n arwain at ohirio Lefel 3 neu feysydd risg isel eraill.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft.

## 49 Meincnodi, Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian.  (Adam Hill)

Cyflwynodd Adam Hill, Dirprwy Brif Weithredwr, adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi trosolwg o sut y ceisiodd y cyngor gyflawni Gwerth am Arian, gan gynnwys rôl meincnodi, a pha wybodaeth oedd ei hangen i alluogi'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni ei ddyletswyddau.

Amlinellodd yr adroddiad y cefndir deddfwriaethol, y diffiniad a'r hanes sy'n ymwneud â 'gwerth am arian', 'gwerth gorau' a meincnodi.  Ychwanegwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fyddai'n disodli Mesur Llywodraeth Leol 2009, yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor barhau i adolygu i ba raddau yr oedd yn cyflawni'r 'gofynion perfformiad' a hefyd yn cynnwys i ba raddau yr oedd yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Esboniwyd ymhellach fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r cyd-destun y dylai cynghorau fod yn cyflawni eu swyddogaethau ynddo, gan ddefnyddio eu hadnoddau a sicrhau bod eu llywodraethu'n effeithiol, gyda'r nod o fanteisio i'r eithaf ar eu cyfraniad i'r nodau llesiant.  Gallai awdurdodau lleol gymhwyso'r meini prawf gwerth am arian a chynnwys cyfleoedd meincnodi fel rhan o'r broses honno.

Yn ogystal, darparwyd esboniadau ynghylch gwerth am arian – sut olwg sydd ar sefyllfa dda; sut olwg sydd ar Abertawe; yr hyn a adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru; a rôl y Pwyllgor Archwilio, a ddisgrifiodd y trefniadau ariannol a llywodraethu y byddai angen eu hadnewyddu a'u gwella fel rhan o broses y cyngor wrth roi'r cynllun adfer a thrawsnewid Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd ar waith.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Cefndir clybiau meincnodi a'u swyddogaeth;
- Diffiniad o werth am arian;
- Amlinellu'r 4 E – economi, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, Ecwiti (a chynaliadwyedd);
- Diffinio a mesur sut mae cwsmeriaid yr awdurdod yn sicrhau gwerth am arian a sut y cyflawnwyd hyn drwy grwpiau ffocws, ymgynghori a chyfathrebu â phreswylwyr;
- Roedd y cynllun gweithredu yn gysylltiedig â thargedau, gan ganiatáu amser i'r rhaglen roi sicrwydd a darparu diweddariadau yn y dyfodol ynglŷn â chynnydd;
- Y gwersi a ddysgwyd o raglenni blaenorol, e.e. Abertawe Gynaliadwy, yn enwedig cael amserlenni realistig a chynigion wedi'u diffinio'n glir;
- Sut y cyfathrebodd y cyngor â'r cyhoedd ynghylch gwerth am arian drwy holiaduron amrywiol, arolygon ac adborth grŵp, gan gynnwys Cynghorwyr a phobl ifanc;
- Sut y mae'r Awdurdod wedi olrhain argymhellion perthnasol a geir yn adroddiadau Archwilio Cymru.

Dywedodd Jason Garcia, Swyddfa Archwilio Cymru, nad oedd holl argymhellion Archwilio Cymru yn eu hadolygiadau cenedlaethol/thematig yn berthnasol i'r Awdurdod. Ychwanegodd, o ran adroddiadau a oedd yn berthnasol, ei fod yn disgwyl i'r Awdurdod weithredu arnynt fel rhan o'i raglen waith ac i roi sicrwydd.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod holl adroddiadau Archwilio Cymru wedi'u hadrodd i Bwyllgor y Rhaglen Graffu a bod gan adroddiadau perthnasol gynlluniau gweithredu a oedd yn cael eu monitro.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn ymwybodol o'r holl argymhellion perthnasol sy'n gysylltiedig ag adroddiadau Archwilio Cymru. Dywedodd hefyd y dylid eu holrhain yn yr un modd ag adroddiadau a gynhwyswyd yn Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio gan fod nifer o'r argymhellion yn werth eu hystyried.

**Penderfynwyd** bod camau i olrhain argymhellion Archwilio Cymru yn parhau yn Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio.

## 50 Gwrth-dwyll. (Er Gwybodaeth) (Adam Hill)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr, gyda chefnogaeth y Prif Archwilydd a Jeff Fish, Ymchwilydd y Tîm Twyll Corfforaethol, adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu cynllun gweithredu o ganfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru - 'Gwella ein Perfformiad' – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru ac Ymatebion Hierarchaeth Cwestiynau Cam 2 Gwrth Dwyll a lywiodd ddatblygiad yr adroddiad Gwella ein Perfformiad.

Roedd yr adroddiad yn darparu cefndir i adroddiad Archwilio Cymru - Gwella ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru (GEP), roedd Atodiad 1 yn darparu'r adroddiad llawn ac amlinellodd Atodiad 2 y cwestiwn Hierarchaeth, a

ddefnyddiwyd fel gwaith maes i ateb y cwestiwn "a yw'r trefniadau ar gyfer atal twyll a chanfod twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol?"

Dywedodd y Prif Archwilydd fod Swyddogaeth Twyll yr Awdurdod yn gryf iawn ac y byddai hyn yn cael ei chryfhau wrth symud ymlaen.  Cydnabu fod y rhan fwyaf o'r gwaith yn adweithiol ac y byddai'n well ganddo wneud gwaith mwy rhagweithiol. Diolchodd i swyddogion y Tîm Twyll Corfforaethol am eu gwaith gydag adnoddau cyfyngedig.

Ychwanegodd Ymchwilydd y Tîm Twyll Corfforaethol fod prosesau trwyadl ar waith a ddilynwyd gan y tîm ac ychwanegodd fod materion gallu'n effeithio ar y gwaith rhagweithiol yr oedd y tîm yn gallu ei gwblhau.  Amlinellodd hefyd y gwaith a wnaed gan y tîm i gynorthwyo ymateb yr Awdurdod i bandemig COVID-19.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Gwerthuso'r gwaith sydd i'w wneud gan fod swyddogion wedi bod yn gweithio mewn meysydd eraill ar gyfer yr Awdurdod a sut y byddai dadansoddiad llawn yn cael ei gyflawni yn ddiweddarach yn y flwyddyn;
- Materion gallu sy'n ymwneud â'r ffaith mai dim ond 2 aelod o staff oedd gan y tîm a'r adolygiad parhaus o'r gwasanaeth;
- Sut y byddai pandemig COVID-19 yn effeithio ar ffigurau wrth symud ymlaen;
- Enghreifftiau o feysydd newydd o dwyll posib o ganlyniad i'r pandemig;
- Y dyddiadau heriol yn y Cynllun Gweithredu.

Soniodd Ben Smith, Prif Swyddog Cyllid/Adran 151 am y cynnydd mewn atgyfeiriadau twyll, yn enwedig mewn meysydd newydd fel grantiau busnes a chydnabu faterion gallu'r Tîm Twyll Corfforaethol.  Diolchodd hefyd i'r swyddogion am eu hymdrechion i roi sicrwydd gwerthfawr i'r Awdurdod.

Canmolodd y Cadeirydd y gwaith sy'n cael ei gwblhau a gofynnodd i'r Adroddiad Blynyddol a gynhyrchwyd gan y Tîm Twyll Corfforaethol gael ei gyflwyno ar ddiwedd Haf 2021, os oes modd.

**Penderfynwyd** bod yr Adroddiad Blynyddol ar Dwyll Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ddiwedd Haf 2021, os oes modd.

## 51 Adroddiad Archwilio Cymru - Crynodeb o Archwiliad Blynyddol Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2020.  (Jason Garcia)

Cyflwynodd Jason Garcia, Swyddfa Archwilio Cymru, Grynodeb Archwilio Blynyddol Dinas a Sir Abertawe 2020 a ddangosodd y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020.

Amlinellwyd bod SAC yn cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Archwilio Cyfrifon
- Gwerth am Arian

- Gwelliant Parhaus
- Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Darparwyd manylion canfyddiadau Archwiliad o Gyfrifon 2019-20 Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r gwaith canlynol a wnaed:

- Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Trosglwyddo cyfleusterau hamdden i bartner cyflenwi newydd y cyngor;
- Gwelliant Parhaus;
- Sefydlogrwydd Ariannol (Mawrth 2020);
- Menter Twyll Genedlaethol;
- Arolygiaethau Eraill;
- Astudiaethau Llywodraeth Leol;
- Gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer 2020-2021.

Trafododd y pwyllgor effaith pandemig COVID-19, a fydd yn effeithio'n arbennig ar Gyfrifon 2020-21.

Soniodd y Cadeirydd am y negeseuon cadarnhaol a geir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 52 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. (Er Gwybodaeth) (Tracey Meredith)

Cyflwynodd Tracey Meredith, Prif Swyddog Cyfreithiol/Swyddog Monitro, ddiweddariad 'er gwybodaeth' i'r pwyllgor ynghylch newidiadau deddfwriaethol i gylch gorchwyl, aelodaeth ac enw'r Pwyllgor Archwilio.

Amlinellwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi dod yn gyfraith ym mis Ionawr 2021 a darparwyd manylion am y rhannau hynny a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar yr awdurdod, gan gynnwys Rhan 1 – Etholiadau, Rhan 3 - Hyrwyddo Mynediad i Lywodraeth Leol a Rhan 6 - Perfformiad a Llywodraethu.

Ychwanegwyd y byddai enw a chylch gwaith y pwyllgor yn newid o 1 Ebrill 2021 a bod newidiadau eraill yn ymwneud ag aelodaeth i fod i ddod i rym o fis Mai 2022.

Roedd y cylch gorchwyl diwygiedig, gan gynnwys y newid i enw'r pwyllgor, i'w weld yn Atodiad 1. Gan fod y diweddariadau hyn yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol, byddai'r Swyddog Monitro yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad o dan ei phwerau a nodir yn Erthygl 15 o'r Cyfansoddiad. Byddai'r newidiadau'n cael eu hadrodd i'r cyngor er gwybodaeth.

Tynnodd y Swyddog Monitro sylw at y ffaith y byddai angen newidiadau pellach i'r cylch gorchwyl ac y byddai'n trafod gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr yr angen i ddod ag adroddiad pellach yn ôl i'r pwyllgor. Byddai angen ystyried maint y pwyllgor yng ngoleuni'r gofyniad deddfwriaethol y byddai angen i draean o'r aelodaeth fod yn Aelodau Lleyg o fis Mai 2022. Teimlai'r Swyddog Monitro a Jason Garcia, Swyddfa

Archwilio Cymru, fod pwyllgor llai yn gweithio'n well drwy ganolbwyntio ar faterion ond mater i'r pwyllgor a'r cyngor fyddai hynny.

Tynnodd y Swyddog Monitro sylw hefyd at y ffaith nad oedd y cylch gorchwyl wedi'i adolygu ers blynyddoedd lawer a byddai'n trafod gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr gan ei bod o'r farn bod angen cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor sy’n canolbwyntio ar ofynion Canllawiau CIPFA.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Amserlen cyflwyno'r newidiadau;
- Aelodaeth y Pwyllgor ar ôl 2022 a'r cydbwysedd gwleidyddol;
- Cyfrifoldeb cynyddol y pwyllgor a chyfrifoldebau hyfforddi a gyflwynwyd gan y Ddeddf newydd;
- Darpariaeth hyfforddiant yn y dyfodol a hyfforddiant CIPFA.

Soniodd y Cadeirydd am yr anghenion hyfforddi ychwanegol wrth symud ymlaen ac awgrymodd y dylid anfon unrhyw sylwadau neu geisiadau am hyfforddiant at y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor ymhen tua 3 mis ynghylch Cylch Gorchwyl diwygiedig y pwyllgor yn unol â chanllawiau CIPFA;
2) Caiff adroddiad ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor ynghylch aelodaeth y pwyllgor yn y dyfodol ymhen tua 5 mis.

**53 Monitro Refeniw a Chyllideb Gyfalaf - 3ydd Chwarter. (Er Gwybodaeth)) (Ben Smith)**

Cyflwynodd Ben Smith, Prif Swyddog Cyllid/Adran 151 adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a Chyfalaf – 3ydd Chwarter 'er gwybodaeth'.

Cyfeiriodd at y materion parhaus sy'n ymwneud â pandemig COVID-19 a'r gwelliant diweddar o ganlyniad i £10 miliwn ychwanegol o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

**54 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio. (Er gwybodaeth) (Jeremy Parkhouse)**

Darparwyd Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth’.

**55 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth) (Jeremy Parkhouse)**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth’.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.43 pm

**Cadeirydd**